# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Gwener, 14 Ionawr 2022

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, J Hughes, P Cockeram, D Harvey, D Mayer and D Davies

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Councillor R Truman

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Cynghorydd Truman.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion 15 Rhagfyr 2021 fel rhai cywir.

4 **Cyllideb Refeniw Ddrafft a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC): Cynigion Terfynol 2022/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i Aelodau'r Cabinet. Yr oedd yr adroddiad yn amlygu'r materion allweddol sy'n effeithio ar ddatblygiad cyllideb y Cyngor am 2022/23 a'r Cynllun Ariannol Tymor canol. Gofynnwyd i'r Cabinet felly gytuno i'r cynigion er mwyn galluogi proses ymgynghori ar gyllideb 2022/23 i gychwyn.

Nododd yr Arweinydd nad oedd unrhyw arbedion newydd yn y gyllideb i ymgynghori arnynt ac nad oedd gofyniad am arbedion newydd neu ychwanegol er mwyn i ni gydbwyso'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn nesaf. Yr oedd hyn yn sefyllfa eithriadol i'r Cyngor o gymharu â blynyddoedd blaenorol, diolch i'r setliad drafft ffafriol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd llynedd.

Yr oedd balans ar hyn o bryd am flwyddyn ariannol 2022/23, ac y mae hyn yn anorfod oherwydd bod y setliad yn hwyr. Er hynny, mae mwy o waith i'w wneud i nodi'r buddsoddiad priodol fel sydd wedi ei osod allan yn y blaenoriaethau allweddol.

Yn gyffredinol, yr oedd y gyllideb drafft yn cynnwys buddsoddiad o bron i £26m yn 2022/23 a £47m dros y tymor canol. Yr oedd hyn yn cynnwys chwyddiant mewn tâl a phrisiau. Fodd bynnag, soniodd yr Arweinydd yn benodol am y meysydd buddsoddi y credai hi a'i chydweithwyr yn y Cabinet oedd y rhai mewn angen, yn ogystal ag ardaloedd a welodd fwy o fuddsoddiad yn dilyn y setliad oedd yn well na'r disgwyl:

Yr oedd y gyllideb hon yn cynnig buddsoddiad mewn ysgolion o hyd at £8m yn 22/23, sef twf o 7.3% yn y gyllideb i ysgolion a hyd at £17.5m dros y tair blynedd nesaf. Mae'r buddsoddiad yn 22/23 yn cynrychioli £2m yn ychwanegol at y codiadau tâl a phrisiau sy'n gysylltiedig ag ysgolion newydd a rhai sy'n tyfu. Byddai hyn yn gynnydd yn y swm o arian fesul disgybl, a byddai'r holl ysgolion yn elwa o hyn. Diolchodd yr Arweinydd ar ei rhan ei hun a'r Cabinet am broffesiynoldeb ac ymrwymiad staff ysgolion dros y ddwy flynedd a aeth heibio. Bu'r staff yn gweithio'n ddiflino ers cychwyn y pandemig i addasu i newidiadau mewn dysgu, a dylid eu canmol am eu hymdrechion.

Soniodd yr Arweinydd am fwy o gynigion am fuddsoddi ar gyfer ymyriad cynnar ac ati i leihau'r pwysau ar Gynghorau mewn lleoliadau addysg a gofal cymdeithasol. Yr oedd hyn yn cynnwys buddsoddiad i greu mwy o allu yn yr hwb diogelu i gefnogi teuluoedd, rhoi mwy o adnoddau a mynd ati yn rhagweithiol i asesu a chefnogi disgyblion bregus.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i fuddsoddiadau eraill wedi eu targedu a allai gael effaith ar y gefnogaeth a roddir i deuluoedd ac unigolion bregus, wrth i'r Cyngor barhau i reoli effaith y pandemig. Byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi yn y gyllideb derfynol.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i fuddsoddiadau fyddai'n cael effaith ar ganol y ddinas a'r busnesau yno. Yn benodol, y rhain oedd hyrwyddo'r ddinas, marchnata, mewnfuddsoddi, cydgordio gweithgareddau a digwyddiadau, twristiaeth, a'r amgylchedd cyffredinol yng nghanol y ddinas ac o'i chwmpas. Byddai'r rhain hefyd yn cael eu cyhoeddi yn y gyllideb derfynol.

Yr oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn cynllunio i fuddsoddi oddeutu £9.5m yn y gyllideb ddrafft yn ychwanegol at y codiadau tâl a phrisiau, ac y mae manylion y rhain yn atodiad 1 yr adroddiad. Ymysg rhai o'r eitemau allweddol yr oedd:

§ £3.2m am Gyflog Byw gwirioneddol i weithwyr gofal a'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol
§ £1.4m am y galw ychwanegol mewn gwasanaethau plant ac oedolion
§ Bron i £900k o gyllid ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Darparwyd dros £700k i gefnogi cyfarwyddeb Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw gysgwyr allan yng Nghasnewydd. Yr oedd y Cyngor wedi rhoi llawer o gefnogaeth i gysgwyr allan ac wedi dod o hyd i lety i lawer o unigolion a theuluoedd oedd mewn lle anodd. Byddai'r buddsoddiad hwn yn galluogi'r Cyngor i barhau i roi cefnogaeth.

Byddid yn cytuno ar fwy o fuddsoddiadau manwl yn y gyllideb derfynol yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror. Byddai adborth o'r ymgynghori yn cael ei ystyried, ac yr oedd y Cabinet eisiau clywed barn am y tri maes blaenoriaeth allweddol, sef ysgolion, ymyriad cynnar, a'r ddinas, yn ogystal ag adborth am fuddsoddiadau penodol yn y gyllideb. Hefyd, yn ogystal â'r buddsoddi cyson yn y gyllideb refeniw fyddai'n cael ei gadarnhau yn y gyllideb derfynol, byddai'r Cabinet hefyd yn nodi buddsoddiadau unwaith-am-byth yn y meysydd hyn a rhai allweddol eraill, a thalu amdanynt o danwariant eleni. Byddai hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth am risg Covid o ran effaith debygol y pandemig unwaith i Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ddod i ben ym mis Mawrth 2022 gan y byddai hyn hefyd yn galw am liniaru.

Yn olaf, cynigiwyd cynnydd o 3.7% yn nhreth y cyngor i ymgynghori arno. Yr oedd hyn yn gynnydd wythnosol o £0.59 - £0.79 i eiddo ym Mandiau A i C, sef y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd.

Yr oedd y setliad a dderbyniwyd wedi caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi a chynyddu arian i wasanaethau allweddol, a byddai mwy o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi yn y gyllideb derfynol, ond yr oedd Treth y Cyngor yn ffactor bwysig yn hynny hefyd.

Yr oedd Casnewydd yn dal i fod ag un o'r cyfraddau treth isaf yng Nghymru ac ar draws y DU, gan mai cynyddu yr oedd ar draws y rhan fwyaf o gynghorau.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Cefnogodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Arweinydd am waith caled a phroffesiynoldeb staff mewn ysgolion ledled Casnewydd, o ran sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn sylweddoli y byddai'r grant caledi yn dod i ben ym mis Mawrth ac yr oedd ansicrwydd am effaith Covid ar blant, a'u bod wedi dioddef o'i herwydd. Yr oedd unigrwydd ac amddifadedd yn golygu fod plant yn cael trafferthion, ac ni fyddai hyn yn newid oherwydd costau byw uchel. Ysgolion oedd canolbwynt y gymuned, yn gofalu fod plant yn cael eu cefnogi i ddysgu, ac yn cael eu bwydo a'u dilladu gartref. Yr oedd croeso felly i'r £8M am y gyllideb Addysg.

§ Yr oedd y Cynghorydd Cockeram yn ategu sylwadau Aelodau'r Cabinet am yr effaith ar iechyd meddwl plant yn ystod y cyfnod clo. Yr oedd y buddsoddiad o £9.5M mewn hybiau diogelu yn gwella, ac yr oedd partneriaethau ar gael. Gwahoddodd yr Aelod Cabinet yr Arweinydd i ymweld â'r hwb i weld sut yr oedd yn gweithredu, rywbryd yn y dyfodol pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny. Byddai'r Arweinydd yn falch o ymuno â'r Aelod Cabinet ar ymweliad â'r safle am ei bod yn hanfodol cefnogi trigolion Casnewydd.

§ Cyfleodd y Cynghorydd Hughes ei gydymdeimlad â theulu'r Cynghorydd Peter Clark o Sir Fynwy ar ran Cyngor Dinas Casnewydd a'r Cabinet. Yr oedd yr Aelod Cabinet ac yn weithiwr cymdeithasol ac yn croesawu'r ymrwymiad i gyflog byw yn yr amser heriol hwn. Yr dangos fod y Cyngor ynn gwrando ac yn cyfrannu at wasanaethau allweddol yn ogystal â chefnogi trigolion Casnewydd.

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at y misoedd o ysgol a gollwyd gan blant, a bod pris i'r rhieni a gofalwyr o hyn hefyd; yr oedd yn croesawu'r cynigion a amlinellwyd yn y gyllideb i gefnogi hyn.

§ Ystyriodd y Cynghorydd Harvey y byddai'r Cyngor yn gweld fod hon yn gyllideb dda, a diolchodd i staff ysgolion a disgyblion yr effeithiwyd arnynt yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac yr oedd felly'n cefnogi'r gyllideb at y dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd fod penderfyniadau i'w gwneud o hyd, ond y byddai'r rhain yn cael eu gwneud gydag adborth gan aelodau'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw godiadau yn cael eu cynnig mewn trwyddedau i yrwyr tacsi, busnesau arlwyo na grwpiau oedd yn defnyddio cyfleusterau chwaraeon. Yr oedd y gyllideb hon yn seiliedig ar gefnogaeth i'n holl deuluoedd yng Nghasnewydd.

Penderfyniad:

1. Cytunodd y Cabinet ar y cynigion drafft isod ar gyfer ymgynghori gan y cyhoedd:
   i) Cynnydd yn nhreth y cyngor o 3.7%, cynnydd wythnosol o £0.59 - £0.79 am eiddo ym Mandiau A i C, y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd, fel y gosodir allan ym mharagraffau 3.21.

   ii) Y ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn atodiad 4.

iii) Buddsoddiadau'r gyllideb a welir yn atodiad 1.

iv) Darpariaeth buddsoddi'r gyllideb mewn ysgolion o hyd at £8,003k, gan nodi y byddai hyn yn talu'n llawn am y rhagdyb o gyflogau athrawon o 4% o fis Medi 2022 ymlaen, ynghyd â chost ysgolion newydd/estynedig fel y nodwyd ym mharagraffau 3.11 – 3.18. Yn benodol ar dâl athrawon, oherwydd yr ansicrwydd yn ei gylch o Fedi 2022 ymlaen, cynigiwyd darpariaeth o hyd at 4% a byddai'n cael ei ddal yn ganolog hyd nes i'r dyfarniad tâl gael ei gadarnhau. Cytunodd y Cabinet i gadarnhau hyn a rhoi ar ei ffurf derfynol pan oedd sicrwydd, gyda'r bwriad o gadw at yr amcan a ddisgrifiwyd uchod o dalu'r codiad tâl yn llawn ym mis Medi o fewn y ddarpariaeth sydd ar gael.

2. Nododd y Cabinet:

v) Y sefyllfa ar ddatblygu cyllideb gytbwys am 2022/23 ac ystyried y cyhoeddiad diweddar am gyllid GCR 2022/23, gan gydnabod y byddai'r sefyllfa yn cael ei hadolygu, ac y ceid cyfoesiadau rhwng nawr a'r Cabinet ym mis Chwefror pan gytunir ar y gyllideb derfynol.

vi) Y rhagfynegiadau ariannol tymor-canol, rhagdybiaethau ynddynt, a'r rhagfynegiadau oedd yn cynnwys buddsoddiadau i roi ffurf derfynol ar wireddu'r addewidion yn y Cynllun Corfforaethol.

vii) Yr angen i flaenoriaethu datblygu 'rhaglen o newid strategol' er mwyn i wasanaethau fod mewn sefyllfa ariannol gadarn a chynaliadwy yn y tymor hir.

Yr oedd angen gwaith pellach i adolygu a rheoli effeithiau ariannol rhai risgiau allweddol yn 2022/23, megis costau'n ymwneud â Covid a cholli incwm.

5 **Monitor Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn amlygu'r rhagolygon am gyllideb refeniw'r Cyngor, ynghyd â'r risgiau a'r cyfleoedd ariannol oedd yn bodoli ym mis Tachwedd 2021.

Yn erbyn cyllideb net o £316miliwn, yr oedd y sefyllfa refeniw ym mis Tachwedd ar hyn o bryd yn rhagweld tanwariant o £10 miliwn, a hyn wedi ystyried y cais newydd am arian wrth gefn, sef amrywiad o 3% yn erbyn y gyllideb. Yr oedd y sefyllfa hon yn cynnwys effaith ariannol pandemig COVID-19 oedd yn parhau, ac yn rhagdybio ad-dalu yn llawn yr holl gostau sylweddol a cholled mewn incwm am weddill y flwyddyn. Yr oedd hyn yn dilyn cadarnhad gan LIC y byddai'r Gronfa Caledi ar gael tan fis Mawrth 2022.

Esboniodd yr Arweinydd, er bod meysydd gwasanaeth yn adrodd am danwariant yn erbyn y gyllideb oherwydd anawsterau/oedi mewn recriwtio, ad-dalu am weithgareddau cysylltiedig â Covid trwy'r Gronfa Galedi ac incwm ychwanegol o grantiau mewn Gwasanaethau plant ac Oedolion, yr oedd llawer o'r tanwariant yn deillio o gyllidebau heb fod yn rhai gwasanaeth, megis arbedion yn erbyn:

(i) y gyllideb arian cyfalaf,
(ii) Cynllun Gostwng Treth Cyngor a chasglu'r Dreth Cyngor,
(iii) y gyllideb refeniw wrth gefn, nad oedd ei hangen ar hyn o bryd, a
(iv) rhai cyllidebau eraill heb fod yn rhai gwasanaeth nad ydynt wedi eu hymrwymo ar hyn o bryd. Cyfanswm hyn yw tanwariant o £10m.

Er hynny, yr oedd rhai meysydd unigol yn dal i orwario yn erbyn gweithgareddau penodol, ac y mae manylion am hyn yn yr adroddiad. Yn y blynyddoedd a aeth heibio, yr oedd y gorwario hwn yn gysylltiedig â meysydd gweithgaredd oedd yn cael eu harwain gan y galw, megis

Gwasanaethau Cymdeithasol; er hynny, nid oedd y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynrychioli mewn gwirioned dyr heriau a wynebwyd yn y meysydd hyn oherwydd y pandemig ac ad-dalu costau ychwanegol a dderbyniwyd o'r Gronfa Galedi. O gofio'r ansicrwydd yn y meysydd hyn, yr oedd risg y gallai lefelau'r galw eleni newid o'r hyn a ragwelwyd, ac y gall y tanwariant gynyddu eto. Nid oedd hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gwario'r arian, ond y byddai'n cael ei wario yn nes ymlaen.

Ymysg y meysydd allweddol sy'n cyfrannu at y sefyllfa a ragwelwyd o £10miliwn y mae:

(i) Costau cynyddol i drin clefyd marwolaeth yr ynn, cynnydd mewn premiymau yswiriant, a'r gwaith adfer oedd ei angen ar draws y stad fasnachol a diwydiannol. Yr oedd disgwyl gorwariant mewn meysydd risg i fod ychydig yn llai na £1 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

(ii) Diffyg a ragwelwyd yn erbyn cyflwyno yn 2021/22 ac arbedion y flwyddyn flaenorol o bron i £600k, yn bennaf oherwydd oedi cyn bwrw ymlaen â chamau angenrheidiol, oherwydd y pandemig. Er bod lefel yr arbedion na lwyddwyd i'w gwneud o ran y flwyddyn ariannol gyfredol yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol, yr oedd angen o hyd i sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud yn llawn, mor fuan ag sydd modd, ac y mae'r swyddogion yn parhau i weithredu er mwyn sicrhau y gwneir hyn yn gynnar.

(iii) Yr oedd tanwariant o £2.7miliwn yn cael ei ragweld yn y gyllideb Arian Cyfalaf. Fel rhan o osod y gyllideb am 2021/22, yr oedd costau cyllido cyfalaf y rhaglen gyfalaf bresennol sy'n dod i ben yn 2022/23, yn cael eu talu'n syth. Arweiniodd hyn at arbediad yn y gyllideb Isafswm Darpariaeth Refeniw a'r costau llog, gan nad oedd angen y gyllideb hon eto. Yr oedd y tanwariant hwn yn hysbys ac i'w ddeall pan na chytunwyd ar y gyllideb ym Mawrth eleni.

(iv) Yr oedd disgwyl arbedion o ryw £900k hefyd yn erbyn y cynllun gostyngiad treth cyngor oherwydd bod llai na'r disgwyl yn hawlio gostyngiad treth cyngor, a chasglu'r dreth cyngor.

(v) Ymhellach, o gofio fod tanwariant yn cael ei ragweld ar y pwynt hwn yn y flwyddyn, nid oedd angen defnyddio cyllideb refeniw cyffredinol wrth gefn y cyngor o £1.3miliwn, felly yr oedd hyn yn ychwanegu at y tanwariant heb fod yn gysylltiedig â gwasanaethau.

Yr oedd ysgolion yn rhagweld gorwariant net o £2.6miliwn, wedi caniatau am ad-dalu gwariant cymwys ac incwm a gollwyd o'r Gronfa Galedi.

Nodwyd, fodd bynnag, fod ysgolion yn dwyn ymlaen falansau sylweddol uwch ar derfyn blwyddyn ariannol 2020/21 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yr oedd hyn yn bennaf oherwydd grantiau Llywodraeth Cymru a dalwyd tua diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, oedd yn talu am wariant oedd eisoes yng nghyllidebau ysgolion. O'r herwydd, yr oedd ysgolion yn dwyn ymlaen falansau uwch na'r hyn a ragwelwyd, ac yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hyn yn fwy na digon i dalu am y gorwariant yr adroddwyd amdano.

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, dim ond pedair ysgol oedd yn rhagweld balansau diffyg, cyfanswm o £919k, gyda dwy yn disgwyl y byddent yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Yr oedd monitro'r gyllideb refeniw yn rhagweld cryn danwariant a allasai gynyddu lefel yr incwm grant annisgwyl allai ddod i ni. Gallai hyn ganiatáu i'r Cabinet ystyried cymysgedd o fuddsoddiadau unwaith-am-byth yr oedd eu hangen yn fawr, a lliniaru risgiau'r gyllideb at y dyfodol wrth i effeithiau ariannol Covid barhau y tu hwnt i fis Mawrth eleni ond heb Gronfa Galedi i roi cefnogaeth. Byddai mwy o fanylion yn cael eu rhoi yng nghynigion terfynol y gyllideb ym mis Chwefror.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at y rhaglen ddiweddar o dorri coed yn sgil clefyd marwolaeth yr ynn, a'r broblem ddiogelwch oedd yn golygu y bu'n rhaid gwario hyn wrth i'r Cyngor barhau i dorri coed ar hyd y ddinas.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at 2.13, y gwasanaethau preswyl i blant, a'r posibilrwydd o wneud arbedion o ryw £2m ar leoliadau. Byddai talu am ofal maeth yn fewnol i blant yn golygu arbedion yn y flwyddyn neu ddwy nesaf wrth i blant symud o'r sector annibynnol. Diolchodd yr Arweinydd i'r gofalwyr maeth, oedd yn unigolion hael a charedig, am eu cefnogaeth yng Nghasnewydd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y gorwariant net mewn ysgolion a'r cynnydd arfaethedig o £8M i fuddsoddiad mewn ysgolion, oedd yn cynnwys cefnogaeth i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Y gobaith felly oedd na fyddai'r Cyngor yn gweld yr un problemau y flwyddyn nesaf.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn:

- Nodi sefyllfa gyffredinol y gyllideb a ragwelir ac i sefyllfa o danwariant fodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Cymeradwyo creu cronfa wrth gefn benodol wedi ei chlustnodi o £563k o danwariant eleni i gefnogi'r galw cynyddol ar gyllidebau anabledd dysgu oedolion yn 2022/23.
- Nodi a gofyn i'r Prif Weithredwr a thîm y Cyfarwyddwyr i weithredu'r arbedion nas cyflwynwyd hyd yma cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ac yn briodol, gan nodi'r risgiau cysylltiedig â'r oedi, a'r cyd-destun cyfredol.
- Nodi'r heriau ariannol cyson a wynebir gan rai gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan alw, a'r angen am reolaeth ariannol gadarn yn y meysydd hyn, yn ogystal â lefel yr arbedion nad ydynt yn cael eu gwneud ar hyn o bryd yn y gyllideb.
- Nodi'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad ac yn sylwadau'r Pennaeth Cyllid, yn enwedig yng nghyswllt y blynyddoedd i ddod ac effeithiau parhaol y pandemig.
- Nodi symudiadau'r rhagolygon am yr arian wrth gefn.
- Nodi'r gwelliant cyffredinol o ran ysgolion, o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ond nodi hefyd y diffyg oedd yn parhau mewn rhai ysgolion a'r risg y byddai hen broblemau yn codi i'r wyneb os na fyddai rheolaeth a chynllunio ariannol da yn digwydd.

**Gweithredu gan**

Aelodau Cabinet / Pennaeth Cyllid / Tîm Rheoli Corfforaethol:

- Penaethiaid Gwasanaeth i barhau i gadw golwg ar y meysydd allweddol o ran risg costau a gweithredu, gydag Aelodau'r Cabinet, i symud i sefyllfa gytbwys gyda'r cyllidebau hynny y rhagwelir ar hyn o bryd fydd yn gorwario.
- Tîm y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth i gyflwyno'r arbedion y cytunwyd arnynt i gyllideb 2021/22 mor fuan ag sy'n ymarferol bosib.

Yr oedd y Penaethiaid Gwasanaeth a deiliaid cyllidebau yn cadw llygad fanwl ar effaith cyfyngiadau newydd y pandemig, y tebygolrwydd y buasent yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf, a chanlyniadau ariannol hyn o gofio na fydd cronfa galedi ar gael.

6 **Monitor Cyllideb Gyfalaf**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud wrth y Cabinet mai un iteraidd ydoedd, ac amlygodd y newidiadau i'r rhaglen gyfalaf ers i'r Aelodau ystyried monitro cyfalaf ym mis Medi 2021 a cheisio ychwanegu cynlluniau newydd, sef cyfanswm o +£4.84m, yn bennaf yn gysylltiedig â grantiau.

Yr oedd yr adroddiad yn dangos y symudiadau a'r rhagolygon hyd at ddiwedd Tachwedd 2021. Adroddwyd fod cyllideb rhaglen gyfalaf Medi yn £65.99m.

Yr oedd newidiadau (gostyngiadau net) o -£3.49m, yn bennaf, dychwelyd y grant am welliannau i'r A467 na fyddai'n mynd y tu hwnt i'r cyfnod dylunio yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Nododd cydweithwyr yn y gwasanaeth lithriad pellach o -£9.81m, o ran cynlluniau yn symud yn ariannol arafach na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau pan wnaed y cynlluniau gwariant blynyddol, gan symud y rhan honno o'r gyllideb i 2022-23.

Pan ychwanegwyd hi at gyllideb Medi, yr oedd cyllideb ddiwygiedig y rhaglen gyfalaf am 2021/22 yn awr yn £57.53m.

Yr oedd canolbwynt y monitro yn bennaf ar y flwyddyn gyfredol (2021-22). Er hynny, yr oedd y rhaglen gyfalaf yn cydnabod y byddai gan gynlluniau mwy wariant fyddai'n croesi blynyddoedd ariannol, a'r confensiwn felly oedd sefydlu rhaglen bum-mlynedd, gyda'r un bresennol i fod i ddod i ben ddiwedd 2022-23. Yr oedd cyflwyno tablau aml-flwyddyn hyd at 2024-25 yn yr adroddiad yn awgrymu rhaglen saith mlynedd, ond cydnabyddiaeth oedd hyn yn bennaf fod ymrwymiadau ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Fargen Ddinesig yn ymestyn y tu hwnt i ddiwedd 2022-23.

Yn erbyn cyllideb ddiwygiedig 2021-22, rhagwelwyd gwariant o £57.58m, fyddai'n golygu gorwariant dros dro o £51k. Rhagwelwyd y byddid yn talu am y gorwariant hwn trwy fidiau ychwanegol am grantiau, ond lle na fyddai arian o'r fath ar gael, byddent felly yn dod yn dreth ar y symiau blynyddol y cyllidebau cynnal a chadw.

Llwyddodd adrannau gwasanaeth i gael arian ychwanegol ar ffurf grantiau i ategu'r rhaglen draddodiadol. Yr oedd hyn yn sicr i'w groesawu o ran gwella gallu'r Cyngor i gynnal ac uwchraddio seilwaith, ond yr oedd yn dueddol o fod yn benodol i rai blynyddoedd yn unig. Arweiniodd hyn at dreiglo ymlaen fwy o lithriad tuag at ddiwedd y rhaglen gyfredol, felly byddai cyllideb gychwynnol 2022-23 yn debyg o fod dros £100m, oedd yn llawer uwch na'r lefelau gwariant traddodiadol a'r gallu reoli'r rhaglen gyfredol. Yr oedd potensial gan y ffigwr hwn i gynyddu eto, o gofio profiad y gorffennol o ystyriaethau'r chwarter olaf megis tywydd gwael, problemau gyda'r gadwyn gyflenwi, ac yn fwy diweddar, absenoldebau oherwydd Covid oedd yn effeithio ar ragolygon cynnydd a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn.

Gall maint y llithriad effeithio ar y gallu i gyflwyno cynlluniau newydd ym mlynyddoedd cyntaf y rhaglen newydd, oherwydd y bydd cwblhau'r rhaglen bresennol yn cael blaenoriaeth.

Nododd gweddill yr adroddiad falansau'r adnoddau oedd ar gael i gefnogi cynlluniau a mentrau newydd, ar ffurf arian cyfalaf wrth gefn a derbyniadau ac arian rhydd y trysorlys.

Yr oedd balans y Derbyniadau Cyfalaf nas ymrwymwyd o (£2.65m) yn yr adroddiad yn gynnydd ar ffigwr Medi, oherwydd i weithgaredd derbyniadau gael ei gynnwys (£1.47m yn ychwanegol). Yr oedd lefel y cyllido oedd yn rhaid dod o Dderbyniadau Cyfalaf yr un fath ag yr adroddwyd amdano ym Medi (£4.3m).

Yr oedd gan y Gronfa Gwariant Cyfalaf Wrth Gefn falans o £4.47m, ond gallai hyn helpu i fforddio cyfran y Cyngor o raglen well ysgolion Band B (£1.3m) a chyfran y Cyngor o gostau dymchwel Canolfan Casnewydd (£250k). Nid oedd yr Aelodau eto wedi cymeradwyo'r naill na'r llall o'r ffigyrau hyn, felly rhag-ymrwymiadau ydynt yn yr adroddiad Monitro Cyfalaf hwn.

Cafodd y £4.5m ychwanegol o arian gwariant cyfalaf rhydd ei osod yn wreiddiol i mewn i'r gyllideb cyllido dyled gan ragweld yr angen i hwyluso prosiectau ychwanegol cyn diwedd cyfnod y rhaglen bresennol (diwedd 2022-23). Nododd y tabl yn yr adroddiad na fu unrhyw

ymrwymiadau ychwanegol ers adroddiad Medi, oedd yn gadael £391k heb ei ymrwymo i gynlluniau newydd a allai godi rhwng nawr a diwedd Mawrth 23y gellid talu amdanynt yn fwy priodol trwy fenthyca.

Oblygiad hyn oedd mai ychydig o arian rhydd mewnol fyddai ar gael heb orfod dibynnu'n drwm ar brosesau bidio am grantiau allanol. Byddai cynnydd cynlluniau yn gynyddol yn dod dan ddylanwad blaengynllunio a dylunio i weithredu i gyd-fynd â chyfnodau rhyddhau ffynonellau grantiau, a meddu ar y gallu angenrheidiol i reoli prosiectau i ymdrin â nifer o brosiectau amrywiol a'u cwblhau.

Comments of Aelod Cabinet:

§ Soniodd y Cynghorydd Cockeram nad iechyd oedd yn talu am waith adeiladu Rhandy Rosedale, ond yn hytrach trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gofynnodd yr Arweinydd i'r swyddogion nodi hyn at y dyfodol.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo'r gwelliannau a'r ychwanegiadau i'r rhaglen gyfalaf (Atodiad A), gan gynnwys defnyddio arian wrth gefn a derbyniadau cyfalaf y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad

2. Cymeradwyo llithriad/ail-broffilio o £9,811k i'r blynyddoedd i ddod

3. Nodi'r cyfoesiad am yr adnoddau cyfalaf sydd weddill ('arian rhydd') hyd at ac i gynnwys 2022/23

4. Nodi'r sefyllfa o ran rhagolygon gwariant cyfalaf fel ym mis Tachwedd 2021

7 **TOMs Cenedlaethol Cymreig ar gyfer Gwerth Cymdeithasol**

Ym mis Tachwedd 2020 lansiwyd y Fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymreig ar ran Cymdeithas Llywodraeth leol Cymru (CLILC), gyda chefnogaeth Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cymru.

Fframwaith fesur yw'r TOMs ar gyfer gwerth cymdeithasol, a phecyn cymorth ymarferol oedd yn caniatau datgloi gwerth cymdeithasol trwy ei integreiddio i gaffael a rheoli prosiectau ar draws y Cyngor cyfan.

Cynlluniwyd fframwaith TOMs Cymru o gwmpas saith thema (saith nod lesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015), 35 Deilliant a 93 Mesur:

Themâu - Y themâu strategol cyffredinol y mae sefydliad am eu dilyn,
Deilliannau – Yr amcanion neu'r nodau y mae sefydliad am gyrraedd fydd yn cyfrannu at y themâu,
Mesurau- Y mesurau y gellir eu defnyddio i asesu a gyrhaeddwyd y Deilliannau hyn.

Ar gyfer Fframwaith TOMs, yr oedd y rhain yn seiliedig ar gamau ac yn weithgareddau y gallai cyflenwr, darparwr gwasanaeth a chontractwr wneud i gefnogi deilliant penodol.

Yr oedd set o 93 Mesur yn y fframwaith. Dewiswyd ystod o'r mesurau hyn, yn ôl natur y caffael, i'w cynnwys ym mhroses dendro Cyngor, fel bod cyflenwyr y tendrau yn gallu ymateb i'r mesurau hyn a rhoi gwybod i'r Cyngor sut y galli ychwanegu'r gwerth cymdeithasol hwn at y contract. Byddai ymateb yn tendrwr wedyn yn cael ei sgorio, a gwerthusiad yr elfen gwerth cymdeithasol hwn yn dod yn rhan o werthusiad llawn y bid am y tendr.

Yr oedd prif fanteision y fframwaith TOMs hwn yn gysylltiedig â safon adrodd cyson am Werth Cymdeithasol. Yr oedd felly yn:

· rhoi agwedd gyson at fesur ac adrodd am Werth Cymdeithasol,
· hyblyg, yn gallu cael ei addasu ac yn unswydd, oedd yn hanfodol er mwyn dangos y gall y fethodoleg lwyddo,
· caniatau gwella parhaus,
· yn rhoi ateb cadarn, tryloyw yr oedd modd ei amddiffyn i asesu a dyfarnu tendrau,
· caniatau i sefydliadau gymharu eu perfformiad eu hunain yn ôl meincnodau sectorau a diwydiannu, a deall sut beth yw'r arfer gorau,
· seiliedig ar berfformiad heb fod yn ariannol, ond yn caniatau adrodd am werth ariannol, ac
· yn lleihau'r ansicrwydd am fesur Gwerth Cymdeithasol i fusnesau, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ar sail asesiadau meintiol cadarn, a thrwy hynny wreiddio gwerth cymdeithasol yn eu strategaethau corfforaethol.

Y bwriad oedd i Fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymru gael ei fabwysiadu fel fframwaith cyffredinol a phecyn cymorth i'w ddefnyddio yn briodol a chymesur mewn gweithgareddau caffael, i ddechrau am gontractau gwerth dros £75,000. Yr oedd y gwerth hwn yn debyg i rai awdurdodau lleol eraill, ac yn cyfateb i'r weithdrefn dendro agored yn ôl ein Rheolau Sefydlog am Gontractio, sy'n gymwys i'r un gwerth o £75k.

Yr oedd Fframwaith TOMs yn fecanwaith effeithiol ac effeithlon i fesur, cofnodi a monitro Gwerth Cymdeithasol a Budd Cymunedol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Croesawodd y Cynghorydd Davies fabwysiadu Fframwaith TOMs oedd yn cyd-fynd â deddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol, fyddai'n galluogi'r Cyngor i ychwanegu gwerth cymdeithasol i newid hinsawdd. Yr oedd porthol i fusnesau hefyd ar gael i helpu busnesau lleol.

§ Soniodd y Cynghorydd Mayer fod y paramedrau presennol yn gorgyffwrdd, ac y byddai'r fframwaith hwn yn dwyn y gwahanol haenau at ei gilydd fel y gallai pobl fynd at wybodaeth mewn un lle.

§ Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod hwn yn gam sylweddol ymlaen i'r Cyngor ac yr oedd hefyd yn ystyried yr agwedd gymdeithasol-economaidd, yr iaith Gymraeg a newid hinsawdd i Gyngor Dinas Casnewydd.

<u>Penderfyniad:</u>

Fod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r TOMs Cenedlaethol Cymreig fel fframwaith cyffredinol i fesur cyflwyno gwerth cymdeithasol trwy Gomisiynu, Caffael a Rheoli Contractau.

8 **Dadansoddiad Perfformiad Canol Blwyddyn 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan roi gwybod i'r Cabinet am y Dadansoddiad Perfformiad Canol Blwyddyn (2021/22) o ran cyflwyno cynlluniau gwasanaeth y Cyngor am chwe mis cyntaf (Ebrill i Fedi) y flwyddyn ariannol hon.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, gan nodi lle'r oedd y Cyngor yn llwyddo i gyflawni yn erbyn ei gynlluniau, a lle gallai'r Cyngor wella. Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys adborth ac argymhellion o bwyllgorau craffu perfformiad y Cyngor.

Yr oedd y Cyngor ym mlwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol pum-mlynedd oedd yn gosod allan weledigaeth a nod i wella bywydau pobl yng Nghasnewydd a chyflwyno gwasanaethau. Datblygodd wyth maes gwasanaeth y Cyngor gynlluniau gwasanaeth oedd yn gosod allan sut y buasent yn cyfrannu at gyrraedd Amcanion Lles y Cyngor ac yn gwella cyflwyno eu gwasanaethau. Y canolbwynt dros y ddwy flynedd diwethaf oedd amddiffyn y gwasanaethau a rhai o'r trigolion a busnesau mwyaf bregus yn y ddinas yn ystod y pandemig. Ar waetha'r heriau, yr oedd y gwasanaethau yn ymateb ac yn ymaddasu i gwrdd â'r galwadau newydd hyn a'r pwysau ychwanegol.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd oedd yn cael ei wneud ar hyd prosiectau, meysydd gwasanaeth, amcanion a gweithredoedd y Cyngor, a'r mesurau perfformiad. Yn gyffredinol, ar waethaf yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau, yr oedd y Cyngor yn dal i wneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y cynlluniau gwasanaeth.

Yng nghanol y flwyddyn ariannol hon, yr oedd47 o 61 prosiect yn adrodd bod eu statws yn wyrdd, sef eu bod ar y llwybr iawn i gyflwyno o fewn y cwmpas, yr amser a'r gyllideb. Dim ond un prosiect (Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol) oedd yn adrodd am statws Coch, gyda 13 prosiect yn adrodd am statws oren. Yr oedd y swyddogion yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod y perfformiad yn gwella.

O ran y mesur perfformiad ar draws yr wyth maes gwasanaeth, yr oedd 69% o'u camau yn adrodd am statws Gwyrdd, gyda dim ond 2% (6 cham) yn adrodd yn Goch a 17% yn adrodd am statws Oren. Adroddodd 63% (48 o 76 mesur) o fesurau'r Cyngor am statws gwyrdd, sy'n golygu eu bod wrthi a/neu yn llwyddo yn erbyn eu targed. Adroddodd15 o 76 mesur statws oren, sy'n golygu eu bod ar eu hôl hi o ran cwrdd â'u targed. Er hynny, yr oedd 13 mesur yn adrodd statws coch, sef bod y mesurau ymhell o'r targed. Mae mwy o wybodaeth am brosiectau, camau a mesurau perfformiad Coch y Cyngor yn atodiad 1 yr adroddiad. Yr oedd grŵp Uwch-Swyddogion y Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i wella eu perfformiad ac i gadw llygad fanwl ar y mesurau er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn digwydd.

Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at rai o lwyddiannau a datblygiadau nodedig o ran cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol:

**Gwasanaethau Oedolion a Chymuned** – Parhau i gefnogi gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys cartrefi gofal.
**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc -** Cefnogi Gofalwyr perthynas a phlant heb gwmni sy'n ceisio lloches i ymsefydlu yng Nghasnewydd.
**Gwasanaethau'r Ddinas -** Parhau i gyflwyno perfformiad ailgylchu cryf i Gasnewydd, y rhaglen Teithio Llesol; gosod y bont droed newydd ar draws Casnewydd a phrynu mwy o gerbydau trydan i gyfrannu at nod y Cyngor o sero carbon net erbyn 2030.
**Addysg** - Presenoldeb disgyblion, cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg i gyflwyno Trawsnewid Anghenion Dysgu ychwanegol erbyn Medi 2022 a bwrw ymlaen gyda rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif ac EdTech gan gynnwys cyfuno Meithrinfa Fairoak a Kimberly i Ysgol Feithrin Casnewydd ac agor y bedwaredd ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli.
**Gwasanaeth Cyllid** - Cefnogi cyflwyno gwasanaethau yn 2022/23 a pharatoadau'r gyllideb tymor-canol a chefnogi trigolion i ddileu ôl-ddyledion ers llynedd a rhoi cyngor a chefnogaeth am ddyledion i ymdrin ag anghenion ehangach y trigolion.
**Cyfraith a Rheoleiddio** - Cefnogi busnesau i gadw at reoliadau Covid / iechyd a diogelwch, gan gymryd camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio. Cefnogaeth ddemocrataidd i aelodau etholedig y Cyngor a chwrdd â gofynion newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau gan gynnwys Etholiadau'r Cynulliad ac isetholiadau; cyfarfodydd rhithiol / hybrid. Iechyd Amgylchedd yn cefnogi ysgolion, cartrefi gofal ac Argyfyngau Sifil i sicrhau bod achosion Covid yn cael eu lliniaru/rheoli.

**Pobl a Newid Busnes** - Parhau i chwarae rhan hanfodol i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'i amcanion corfforaethol a chefnogi pob maes gwasanaeth i gyflwyno deilliannau allweddol. Yr oedd hyn yn cynnwys symud i gynllun adeiladu Normal Newydd gyda gweithio hyblyg a menter Newid Hinsawdd. Yr oedd Argyfyngau Sifil yn dal i fod wrth graidd cydgordio ymateb y Cyngor i bandemig Covid a fydd yn parhau am weddill 21/22. Polisïau lles, partneriaethau polisi yn ogystal â chefnogi teuluoedd i ymsefydlu yng Nghasnewydd fel rhan o gynllun y Swyddfa Gartref i adsefydlu ffoaduriaid i enwi dim ond rhai.

**Adfywio Buddsoddi a Thai** -Canolfannau Cymdogaeth, yn cefnogi trigolion trwy fentrau gwaith a sgiliau megis Kickstart a Restart, darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol trwy'r haf. Cefnogaeth tai a digartrefedd gan gydweithio a phartneriaid i ddod o hyd i gefnogaeth a llety tymor-hir. Cefnogaeth Fusnes, ail-ddatblygu'r Farchnad Dan Do/Arcêd y Farchnad, a'r Ganolfan Hamdden a Lles newydd ar Ffordd Brynbuga.

**Adborth ac Argymhellion gan y Pwyllgorau Craffu**

- Adborth gan y Pwyllgorau Craffu Perfformiad ym mis Tachwedd am gyflwyno yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth a chyd-destun ehangach argyfwng Covid. Yr oedd yr adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys eu hadborth a phwyntiau allweddol a godwyd ym mhob cyfarfod. Mae modd cyrchu cofnodion llawn/fideos y cyfarfodydd ar-lein trwy wefan y Cyngor. Derbyniodd y Cabinet yr adborth a gafwyd gan gydweithwyr yn y ddau Bwyllgor Craffu ac annog Aelodau Cabinet ac Uwch-Swyddogion i ystyried y rhain wrth gyflwyno gwasanaethau ac adroddiadau yn y dyfodol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw at bresenoldeb mewn ysgolion. Yr oedd y Cyngor yn cymryd agwedd ragweithiol at bresenoldeb, gan fod hyn hefyd yn fater diogelu plant. Un ardal goch allweddol oedd honno yng nghyswllt darpariaeth ADY, ond yr oedd y Cyngor yn dal i ddisgwyl am ganllawiau gan LIC ac felly yn methu â bwrw ymlaen. Er hynny, byddid yn mynd i'r afael a materion anghenion cyllido eraill.

§ Soniodd y Cynghorydd Jeavons fod Gwasanaethau'r Ddinas yn dal i gyflwyno yn erbyn targedau fel yr amlygwyd uchod, gan gynnwys pont droed Devon Place a osodwyd ar Ddydd Nadolig, cyn yr amser a bennwyd. Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled ar y project. Canmolodd yr Arweinydd hefyd y gwaith a chyfeirio at y fideo oedd yn dangos y gwaith yn cael ei wneud i osod y bont droed.

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at Atodiad 1 lle'r oedd y swyddogion yn aros am ganllawiau gan LIC ar fod yn Rhiant Corfforaethol, oedd yn golygu bod y Cyngor yn y coch oherwydd hyn. Ond y Fforwm Rhieni Corfforaethol oedd un o'r pwyllgorau gorau, gyda gofalwyr maeth a phlant yn bresennol, ac eto, oherwydd yr oedi o du LIC, yr oedd hyn yn dangos yn goch. Cytunodd yr Arweinydd fod ffactorau y tu hnwt i reolaeth y Cyngor yn hyn o beth. Yr oedd yn bwysig, er hynny, cydnabod fod y pandemig wedi cael effaith ar LIC, a byddai hyn wedi cyfrannu at yr oedi. Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet am ei waith caled a'i gyfraniad at wasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r staff yn y Gwasanaethau Oedolion.

§ Soniodd y Cynghorydd Harvey, o ystyried y cafwyd bron i ddwy flynedd o gyfyngiadau Covid, fod 220 o gamau wedi eu rhestru oedd yn wyrdd, gyda chwech yn goch, oedd i'w ganmol. Ystyriodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad wedi ei lunio'n dda, a diolchodd i'r staff am eu gwaith caled ar adeg mor anodd. Yr oedd yr Arweinydd hefyd yn ategu diolchiadau'r Aelod Cabinet.

§ Diolchodd y Cynghorydd Hughes hefyd i'r staff oedd yn gweithio yn y Gwasanaethau Amgylchedd yn ystod yr amser heriol hwn, gan weithio gyda chymunedau yn ystod y pandemig.

§ Cefnogodd y Cynghorydd Mayer y gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Craffu, ac ystyriodd fod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud gwaith rhagorol dan yr amgylchiadau a theimlai y byddid yn ymdrin â'r meysydd coch yn nes ymlaen yn y flwyddyn, oedd yn gam cadarnhaol.

Diolchodd yr Arweinydd, gan gytuno gyda'r sylwadau a wnaed gan Aelodau Cabinet ar yr adroddiad hwn, yn ogystal â diolch i'r cydweithwyr Craffu am eu cefnogaeth.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad gan nodi perfformiad meysydd gwasanaeth y Cyngor, a chydnabod lle'r oedd y Cyngor yn perfformio'n dda ac ymdrin ag ardaloedd o danberfformiad gyda'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

9 **Adroddiad Diweddaru ar Drefniadau Gwaith CCR/CJC**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd yn seiliedig ar nodyn cefndir a baratowyd gan Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd. Yr oedd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r 10 awdurdod lleol sy'n ffurfio Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru, i roi cyfoesiad am y broses weithredu er mwyn cwrdd â gofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yr oedd yr adroddiad yn gosod allan fodel llywodraethiant a chyflwyno interim, cyn penderfynu ar nifer o faterion ariannol sydd heb eu datrys a throsglwyddo swyddogaethau i'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Yr oedd hyn yn golygu dilyn 'llwybr deuol' i gydymffurfio ag isafswm y gofynion cyfreithiol gan y CBC erbyn y terfyn statudol o 31 Ionawr a byddai'n parhau gyda threfniadau Cydweithio 'r Fargen Ddinesig, hyd nes y bydd problemau wedi eu datrys.

Er nad oedd gofyn i'r Cabinet na'r Cyngor gymryd unrhyw benderfyniadau pellach ar hyn o bryd, er gwybodaeth yr oedd yr adroddiad, ac yr oedd gofyn i'r Cabinet nodi'r sefyllfa bresennol am y cynllun gweithredu a'r trefniadau llywodraethiant interim. Yr oedd ffurf a rhedeg y Cyd-Bwyllgor Corfforaethol wedi eu gosod gan ddeddfwriaeth a Rheoliadau, tra bod y trefniadau cyflwyno a llywodraethiant yn unol â Chytundeb Cydweithio'r CBC y cytunodd y Cyngor arnynt o'r blaen.

Yr oedd cydweithwyr yn ymwybodol fod Deddf 2021 yn mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol i gyflawni rhai swyddogaeth adfywio, datblygu economaidd a thrafnidiaeth ar lefel ranbarthol. Yr oedd y Cydbwyllgorau Corfforaethol hyn yn wahanol i Gydbwyllgorau blaenorol, megis CCR Cabinet Rhanbarthol am eu bod wedi eu gorchymyn gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na bod yn drefniadau gwirfoddol, a'u bod wedi eu cyfansoddi fel cyrff cyfreithiol ar wahân, gyda phwerau i osod eu cyllideb ei hun, cyflogi staff a dal eiddo ac asedau eraill. Yr oedd copi o adroddiad llawn y Cabinet Rhanbarthol yn Atodiad 2.

Cytunodd y Cabinet Rhanbarthol ar 13 Rhagfyr i fabwysiadau agwedd "llwybr deuol", fyddai'n cwrdd ag isafswm gofynion y ddeddfwriaeth, ond yn galluogi'r CBC i aros yn llonydd ac i drefniadau'r Fargen Ddinesig barhau yn ystod y cyfnod interim. Mae copi llawn o adroddiad y Cabinet Rhanbarthol hwnnw yn Atodiad 3.

Y bwriad oedd i'r CBC gynnal cyfarfod cychwynnol o'r holl Arweinyddion cyn 31 Ionawr, i osod cyllideb gychwynnol, mabwysiadu'r rheolau sefydlog arfaethedig a osodir allan yn Atodiad 1 a sefydlu fframwaith llywodraethiant sylfaenol. Y cyfan oedd y Rheolau Sefydlog yn wneud oedd adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth a'r Rheoliadau, gyda phob un o'r 10 awdurdod yn cael eu cynrychioli gan eu Harweinyddion a phob aelod ag un bleidlais. Byddai penderfyniadau ar y gyllideb yn unfrydol, a phenderfyniadau eraill angen mwyafrif arbennig o

70%. Yr oedd gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd fod yn aelod statudol o'r CBC ond yn unig yng nghyswllt datblygu'r Cynllun Datblygu Strategol, o gofio eu pwerau cynllunio. Yr oedd gan y CBC hefyd rym i gyfethol aelodau eraill.

At ddibenion gosod cyllideb gyntaf CBC a'r model isafswm yn unig, byddai'r CBC yn defnyddio cyllideb bresennol y Fargen Ddinesig y cytunwyd arni ac na ddylid cael gofyniad am unrhyw ddyraniad cyllideb ychwanegol gan y cynghorau. Ar gyfer cyllidebau'r dyfodol, byddai'n rhaid cytuno ar fecanwaith i ymdrin â dyraniad y gyllideb o'r cynghorau cyfansoddol i alluogi'r CBC i osod ei gyllideb ei hun dan y Rheoliadau, gan nad oedd ganddo unrhyw bwerau trethu na phraeseptio uniongyrchol.

Unwaith i'r materion ariannol gael eu datrys, y bwriad oedd trosglwyddo swyddogaethau'r Fargen Ddinesig i'r CBC yn unol â'r cynllun "codi a symud" trosiannol gwreiddiol. Pe na bai'r materion hyn yn cael eu datrys cyn cychwyn statudol swyddogaethau CBC ar ôl diwedd Mehefin 2022, yna efallai y bydd angen parhau â'r trefniadau "llwybr deuol". Yna, bydd angen i'r cynghorau wneud darpariaeth yn y gyllideb i'r CBC gychwyn gwaith ar y cynllun datblygu strategol a'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol, gan nad oedd modd i'r gwaith hwnnw gael ei wneud gan y Cabinet Rhanbarthol.

Yn y tymor hwy, unwaith i'r CBC weithredu'n llawn, yna byddai angen cymryd penderfyniadau am ei gyllido at y dyfodol a'r trefniadau gweithio, ond am y tro, gofynnwyd i'r Cabinet nodi'r sefyllfa bresennol a'r trefniadau interim ar gyfer parhau Cytundeb Cydweithio y Fargen Ddinesig.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Arweinydd am esboniad cynhwysfawr o adroddiad anodd a chymhleth.

§ Diolchodd yr Arweinydd i'r holl swyddogion fu'n rhan o lunio'r adroddiad a'r atodiadau, gan gynnwys Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Bwrdd Rhaglen Dinas-Ranbarth Caerdydd.

<u>Penderfyniad:</u>

Fod y Cabinet yn :

(a) Nodi'r model llywodraethiant a chyflwyno interim ar gyfer gweithredu Cyd-Bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru, a'r trefniadau 'llwybr deuol' a gynigiwyd ar draws gweithredu Bargen Ddinesig DRC, ochr yn ochr â gweithredu CBC 'isafswm yn unig' – hyd nes y gall yr agwedd 'codi a symud' ddigwydd.

(b) Nodi'r gofyniad i'r CBC osod a chymeradwyo cyllideb ar neu cyn 31Ionawr 2022 a'r camau a osodir allan yn yr adroddiad i alluogi hyn.

(c) Nodi'r risgiau a'r problemau a osodir allan yn yr adroddiad oedd yn galw am barhau i fonitro, lliniaru a rheoli.

(d) Nodi'r cais a wnaed y CCR i Lywodraeth Cymru i newid Rheoliadau CBC i newid y dyddiad pryd y cychwynnodd y dyletswyddau yn syth dan y Rheoliadau o 28 Chwefror 2022 i 30 Mehefin 2022.

(e) Nodi'r drafft o Reolau Sefydlog <u>Atodiad 1</u> oedd yn gosod allan y gofynion cychwynnol a'r model gweithredu am y CBC yn ogystal â busnes cychwynnol y cyfarfod cyntaf ar 31 Ionawr 2022

(f) Nodi'r gwaith sy'n digwydd gan DRC a'r Cynghorau sy'n ei chyfansoddi i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac ymgynghorwyr fel sy'n briodol, i helpu i ddatrys problemau lle bo modd.

(g) Nodi y byddai'r Arweinydd yn cynrychioli'r Cyngor ar CBC De Ddwyrain Cymru ac y bydd dyletswydd arnynt i ystyried a gosod eu cyllideb gyntaf yn y cyfarfod cychwynnol ar 31 Ionawr 2022, er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn ôl y gofyn

10 **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2021/25**

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cabinet fod yr adroddiad wedi ei baratoi gan y Prif Swyddog Addysg a bod gofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg 10-mlynedd, neu'r CSAG, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Yr oedd Deddf Safonau Ysgolion a Threfniadaeth (Cymru) 2013 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn paratoi CSAG a chadarnhawyd bod yn rhaid i hwn gynnwys targedau a chynigion i wella'r ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a safonau addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg. Yr oedd y Ddeddf hefyd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno eu CSAG i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo cyn ei weithredu. Yr oedd y cyfnod CSAG 10-mlynedd newydd i fod i gychwyn ym Medi 2022, a'r terfyn ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru oedd 31 Ionawr.

Yr oedd y CSAG yn dangos sut y byddai Casnewydd yn cyfrannu, dros y 10 mlynedd nesaf, at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Y mae Cymraeg 2050 yn cyflwyno gweledigaeth tymor-hir o Gymru lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Yr oedd a wnelo'r targed cyffredinol yn y CSAG â'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant Blwyddyn 1 oedd yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Llywodraeth Cymru oedd wedi gosod y targed hwn, a nodwyd isafswm o 6 phwynt canran ar gyfer Casnewydd. Byddai hyn yn digwydd trwy ddyblu'r ddarpariaeth oedd ar gael ym mlwyddyn academaidd 2020/21 erbyn 2032. Yn anorfod, bydd yn rhaid ategu hyn gan fwy o gyfleoedd i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, cynyddu'r sector uwchradd cyfrwng-Cymraeg, a chynnydd yn y gweithlu.

Datblygwyd y drafft CSAG ar y cyd â phartneriaid o Fforwm y Gymraeg mewn Addysg Casnewydd, ac yn ôl y gofyn, yr oedd yn destun cyfnod o wyth wythnos o ymgynghori statudol. Yr oedd hyn yn cynnwys ymwneud yn helaeth â rhanddeiliaid, cryn gyhoeddusrwydd trwy sianelu cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, annifer o gyfleoedd i gael sylwadau gan ddysgwyr trwy drefnu sesiynau mewn nifer o ysgolion uwchradd. Disgrifiwyd hyn yn fanwl yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd gyda'r adroddiad, ac a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.

Cafodd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ystyried, a gwnaed rhai mân newidiadau i ardaloedd targed penodol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, awgrymai'r ymatebion fod y CSAG yn ddigon cadarn ac uchelgeisiol, ac y dylid yn awr ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Ategodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Arweinydd sef bod hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth gan LlC. Yr oedd y Cyngor yn ddiolchgar am gefnogaeth Fforwm y Gymraeg mewn Addysg. Yr oedd nifer y myfyrwyr a gymerodd ran yn y cynllun yn gadarnhaol ac yn dangos cryn gefnogaeth. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod cyfraniad CSAG Cyngor Dinas Casnewydd yn rhagorol.

§ Ychwanegodd y Cynghorydd Hughes ei fod, fel siaradwr Cymraeg, yn cefnogi'r adroddiad a'i fod yn ddiolchgar am y ddarpariaeth Gymraeg oedd ar gael. Yr oedd hyn yn newid yr

amgylchedd i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn dinas mor amrywiol â Chasnewydd. Nid yn unig y byddai'n gwella'r Gymraeg, ond byddai hefyd yn annog plant i ddysgu ieithoedd eraill.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol ac yn cymeradwyo cyflwyno'r CSAG i Lywodraeth Cymru i'w ystyried, gyda golwg ar weithredu'r Cynllun newydd o Fedi 2022 ymlaen.

11 **Adroddiad Diweddaru Brexit**

Dywedodd yr Arweinydd mai adroddiad nesaf y Cabinet oedd cyfoesiad am drefniadau trosiannol yr UE ers i'r DU adael ar 31 Rhagfyr 2020.

Aeth blwyddyn heibio ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Sengl, a thrwy gydol y flwyddyn, yr oedd y Cyngor wedi dal i weld effeithiau pellgyrhaeddol nid yn unig o adael yr UE ond hefyd o effeithiau byd-eang Covid wrth i economïau weld cynnydd mewn galw, a tharfu ar gyflenwadau.

Cynyddodd costau byw i aelwydydd yng Nghasnewydd a Chymru trwy gydol y flwyddyn, gyda chyflogau yn annigonol i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn. I aelwydydd ar incwm isel, bydd y codiadau hyn yn cael yr effaith fwyaf, gyda disgwyl i brisiau ynni godi eto yn 2022.

Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad i'r Cabinet am Adfer o Covid, yr oedd y Cyngor, Llywodraeth Cymru a mudiadau nid-am-elw/elusennau eraill yn cynnig cymorth ariannol i aelwydydd yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â rhoi cyngor ar ddyledion, hyfforddiant a chyfleoedd am waith.

Yr oedd cost a chyflenwad nwyddau yn dal i effeithio ar wasanaethau a phrosiectau oedd yn cael eu cyflwyno gan Gasnewydd. Yr oedd prosiectau adeiladu a chyflwyno gwasanaethau fel Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gweld cynnydd mewn costau oherwydd y ffactorau hyn.

I ddinasyddion yr UE / AEE sy'n byw yng Nghasnewydd, cwblhawyd dros 10,000 cais am statws sefydlog, gyda 920 cais yn aros am benderfyniad *(seiliedig ar ffigyrau'r Swyddfa Gartref hyd at fis Medi 2021).* Yr oedd y Cabinet yn cefnogi dinasyddion yr UE / AEE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd, gan fod gan bawb ran i'w chwarae i wneud Casnewydd yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Anogodd y Cabinet unrhyw un oedd yn dal i aros am benderfyniad neu'n cael anhawster cwblhau eu cais i gysylltu â'r Cyngor a mudiadau eraill fel Cyngor ar Bopeth.

Yr oedd gwasanaethau addysg ynghyd ag Ysgol Gynradd Maendy yn cefnogi cymuned Roma y ddinas, gan wella gwybodaeth a dealltwriaeth y trigolion o'r gymuned Roma, eu hanes a'u traddodiadau.

Yr oedd grŵp Atebion Caledi y Cyngor yn cydgordio ymdrechion y Cyngor a gwasanaethau nid-am-elw i gefnogi'r sawl oedd yn dioddef yr effeithiau, ac yn ceisio sicrhau nad oeddent yn dioddef ecsploetio.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at agenda codi'r gwastad, gan obeithio y byddai modd gweithredu hyn i sicrhau y gallai'r Cyngor gefnogi'r trigolion yn y ffordd orau y gallai.

§ Soniodd y Cynghorydd Cockeram am swyddi gwag yn y sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol oedd yn cael effaith ar bobl fregus oherwydd Brexit.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn ystyried ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn derbyn cyfoesiadau rheolaidd wrth i gynnydd ddigwydd.

## 12 Adroddiad Adfer Covid

Amlygodd yr Arweinydd bwrpas yr adroddiad hwn i'r Cabinet, sef rhoi cyfoesiad am ymateb y Cyngor i bandemig Covid a chynllun adfer y ddinas, i sicrhau fod trigolion a busnesau yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau cyfredol, a'r cynnydd sydd yn cael ei wneud gyda Nodau Adfer Strategol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Dros y mis diwethaf, daeth amrywiolyn Omicron yn fwyaf amlwg ledled Casnewydd a Chymru. Cynyddu wnaeth nifer yr achosion positif o'r amrywiolyn ledled Cymru dros yr wythnosau diwethaf, ac yr oedd hyn hefyd yn cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor.

Mewn ymateb, cymerodd Llywodraeth Cymru Gymru i Lefel Rhybudd 2 ac ail-gyflwyno nifer o gyfyngiadau er mwyn cefnogi'r gwasanaethau iechyd a gofal. Fodd bynnag, byddai un o Weinidogion Cymru yn gwneud cyhoeddiad yn nes ymlaen am y posibilrwydd o lacio cyfyngiadau.

Yr oedd yr adroddiad yn amlinellu'r cyfyngiadau hyn, a byddai'r Cabinet yn dal i ofyn i drigolion a busnesau ddilyn y rhain a manteisio ar y cyfle i gael brechiad atgyfnerthu a brechu'r sawl nad ydynt eisoes wedi derbyn hynny.

Gyda'r cynnydd yn nifer yr achosion yn y gymuned, yr oedd hyn yn awr yn cael effaith ar staff y Cyngor, gan gynnwys y rhai mewn ysgolion.

Yr oedd tîm Aur (Argyfyngau Sifil) y Cyngor ac Aelodau Cabinets yn derbyn adroddiadau rheolaidd am y sefyllfa fel yr oedd yn datblygu, ac yr oedd nifer o staff yn absennol naill ai am eu bod yn hunan-ynysu neu wedi dal Covid. Cafodd hyn effaith ar wasanaethau rheng-flaen hanfodol y Cyngor megis gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau'r Ddinas a'n hysgolion. Yr oedd mesurau wrth gefn ar waith ledled y Cyngor a'r ysgolion i reoli hyn.

Gofynnodd yr Arweinydd i ddefnyddwyr gwasanaeth, trigolion a busnesau ledled Casnewydd, i gadw mewn cysylltiad â chyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor gydag unrhyw gyhoeddiadau am darfu ar ein gwasanaethau. Os bydd unrhyw un yn poeni am gyflwyno gwasanaeth neu'n pryderu am gymdogion ac aelodau'r teulu, dylent gysylltu â'r Cyngor.

Yr oedd yr Arweinydd a'r Cyngor hefyd yn deall yr anawsterau a wynebai trigolion a busnesau Casnewydd ar yr adeg hon o'r flwyddyn oherwydd costau byw, taliadau tanwydd, a methu a masnachu yn ôl yr arfer.

Yr oedd gan Gyngor Casnewydd a Llywodraeth Cymru lawer o becynnau cefnogaeth, ariannol ac fel arall. Yr oedd yr Arweinydd eisiau manteisio ar y cyfle hwn i annog y sawl oedd angen cymorth i gysylltu â'r Cyngor a hefyd i fynd at wefan y Cyngor i weld pa gefnogaeth oedd ar gael yn y cyfnod hwn. Yn ychwanegol at y gefnogaeth hon, cytunodd y Cabinet hwn fis diwethaf i ddarparu £100k yn ychwanegol er mwyn cefnogi banciau bwyd ac elusennau'r ddinas. Byddai'r arian hwn yn helpu'r banciau bwyd i reoli'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau ac yn helpu aelwydydd i geisio gwella eu hamgylchiadau.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr amcanion adfer strategol fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn olaf, cyfeiriodd yr Arweinydd at sylwadau'r Cynghorydd Harvey yn gynharach sef ein bod yn nesáu at ddwy flynedd ers dechrau'r pandemig, ac adleisiodd ddiolchiadau'r Aelod Cabinet i staff y cyngor am gefnogi Casnewydd.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at wasanaethau rheng-flaen Cyngor Dinas Casnewydd a dweud bod y staff hefyd yn agored i ddal Covid. Yr oedd amrywiolyn Omicron wedi lledaenu'n gyflym, a chafodd hyn effaith ar wasanaethau. Os oedd rhai strydoedd felly wedi colli eu casgliadau sbwriel dros gyfnod y Nadolig, dylai'r trigolion adael eu sbwriel allan i'w gasglu mor fuan ag sydd modd.

§ Adleisiodd y Cynghorwyr Harvey a Hughes sylwadau'r Arweinydd.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a'i nodi, a bydd y Cabinet / Aelodau Cabinet yn derbyn cyfoesiadau gan swyddogion fel rhan o'u portffolio.

13 **Rhaglen Waith**

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

14 **Crynodeb o Fusnes Partneriaeth Casnewydd yn Un**

Nododd y Cabinet y Crynodeb o Fusnes Casnewydd yn Un er gwybodaeth.